# Deon y Gymraeg y Brifysgol

Yn atebol i'r Dirprwy Is-ganghellor ac yn eu cynrychioli yn aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol sy'n gyfrifol am y Gymraeg, bydd Deon y Gymraeg y Brifysgol yn arwain ar ddatblygu a chyflawni blaenoriaeth strategol allweddol i'r Brifysgol o safbwynt academaidd, sef strategaeth y Gymraeg a'i gwaith cysylltiedig. Gan weithio'n rhan o fframwaith strategaeth gyffredinol y Brifysgol a'i pholisïau a'i gweithdrefnau, bydd y Deon yn meithrin cyfraniadau gan unigolion, ac ar y cyd ag eraill, i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Byddan nhw hefyd yn rhoi arweiniad i staff allweddol Cymraeg eu hiaith er mwyn sicrhau un dull cyson o gyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi'n rhan o Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol.

Mae disgwyl i Ddeon y Gymraeg weithio ar y cyd â phob rhan o'r Brifysgol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'n diwylliant a'n gweithgarwch. Bydd hyn yn cael ei gyflawni wrth weithio gyda'r Academi Gymraeg, sy'n ymgorffori holl weithgarwch y Gymraeg yn y Brifysgol, ac y mae ei staff craidd yn rhan o Swyddfa'r Is-Ganghellor.

At hynny, bydd y Deon yn gweithio'n agos gyda Rheolwr yr Academi Gymraeg a Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg, yn ogystal â'r UwchGynghorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog yr Iaith Gymraeg sy'n rhan o Ysgrifenyddiaeth y Brifysgol. Bydd gofyn iddyn nhw hefyd feithrin perthynas waith gadarnhaol ag uwch arweinwyr eraill ledled y sefydliad i sicrhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd am y Gymraeg yn y gwahanol adrannau ac ysgolion academaidd.

**Mae disgwyl i Ddeon y Gymraeg:**

1. Gweithio'n agos gyda phob rhan o'r Brifysgol, ar bob lefel, i feithrin 1) cyfraniadau gan unigolion, ac ar y cyd ag eraill 2) atebolrwydd a chyfrifoldeb gan unigolion, ac ar y cyd ag eraill, er mwyn hybu a datblygu'r Gymraeg;

2. Sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ei ffurfiau ehangaf a mwyaf cynhwysol yn cael ei hyrwyddo ym mhob rhan o'r Brifysgol i staff a'r corff ehangach o fyfyrwyr, yn ogystal ag eirioli dros aelodau o gymuned Cymraeg ei hiaith y Brifysgol yn eu holl amrywiaeth.

3. Gweithredu ar ran y Dirprwy Is-Ganghellor i fod yr uwch academydd sy'n gyfrifol am berthynas y Brifysgol â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol;

4. Goruchwylio'n strategol bortffolio Darpariaeth Gymraeg y Brifysgol;

5. Ysgogi'r gwaith sydd ei angen i gyflawni strategaeth Darpariaeth Gymraeg y Brifysgol;

6. Bod yn hyrwyddwr amlwg o anghenion academaidd ac ehangach myfyrwyr Cymraeg eu hiaith (e.e. tiwtora personol, asesiadau Cymraeg, gwasanaethau cymorth myfyrwyr, neuaddau preswyl ac ati);

7. Dirprwyo yn y maes hwn i'r Dirprwy Is-ganghellor fel y bo'n briodol;

8. Cynrychioli buddiannau'r Brifysgol ar bwyllgorau/gweithgorau mewnol ac allanol fel y bo'n briodol.

**Cymwyseddau, Gallu a Phrofiad Allweddol**

- Hanes cryf o gefnogi'r Gymraeg, a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg
- Dealltwriaeth ymarferol o bolisïau a gweithdrefnau cyfredol sy'n sylfaen i'r Gymraeg
- Dealltwriaeth gref o amodau, materion, tueddiadau a datblygiadau allanol y maes
- Profiad amlwg o arweinyddiaeth academaidd gyda'r gallu i feddwl yn strategol a meithrin gweledigaeth a rennir

- Hanes o feithrin perthnasau gwaith mewnol ac allanol effeithiol a chynhyrchiol
- Ymwneud â chymunedau proffesiynol perthnasol
- Ystod eang o ddealltwriaeth o'r gweithgarwch cyfredol sydd ar waith yn y maes, a'r gofynion ar gyfer y dyfodol

**Rhinweddau a Sgiliau**

- Gallu amlwg yn arweinydd tîm, a'r gallu i ysbrydoli a chymell pobl eraill
- Sgiliau trafod da, hyblygrwydd a meddwl agored
- Arddull rheoli cynhwysol a cholegol sy'n gallu meithrin cysylltiadau ar draws sbectrwm eang o randdeiliaid, gan gynnwys cydweithwyr, myfyrwyr a grwpiau allanol
- Gweithio o'u pen a'u pastwn eu hun, a dangos y gallu i arfer eu crebwyll, gwneud penderfyniadau a rheoli newid
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal â sgiliau rhwydweithio a hyfforddi tîm rhagorol

Swydd 0.6 gyfwerth ag amser llawn a thymor sefydlog am dair blynedd yw hon, gyda'r posibilrwydd o estyniad am 3 blynedd arall. Bydd deiliad y swydd yn cael lwfans blynyddol di-bensiwn o £4,500.